# Ysgol Aberconwy

# Gwrth-Fwlio

| | |
|---|---|
| **DOGFEN BOLISI RHIF: 4** | **RHIFYN: 2** |

**CYMERADWYWYD Y POLISI HWN GAN Y CORFF LLYWODRAETHU LLAWN**

**Llofnod:**

**Dyddiad: 15/3/16**

**Dyddiad adolygu : 1/3/19** **Cyswllt TA : ADH**

# POLISI GWRTH-FWLIO YSGOL ABERCONWY

## Sail resymegol

Mae gan bawb yn Ysgol Aberconwy yr hawl i deimlo'n gartrefol, yn ddiogel a hapus. Dyma'r unig ffordd y gall aelodau o gymuned yr ysgol gyrraedd eu llawn botensial. Mae bwlio o unrhyw fath yn rhwystro hyn rhag digwydd ac yn rhwystro gweithredu cyfle cyfartal. Mae gan bawb gyfrifoldeb i atal bwlio, ac yn y polisi hwn ceir canllawiau i gynorthwyo'r ethos hwn.

Os digwydd bwlio rhaid i ddisgyblion a dargedir fod yn hyderus y gallant roi systemau gwrth-fwlio'r ysgol ar waith er mwyn delio â'r broblem. Ein nod yw herio agweddau yn ymwneud â bwlio, i gynyddu'r cydymdeimlad â disgyblion sy'n cael eu bwlio a'r sawl sy'n bwlio, a helpu i ddatblygu ethos gwrth-fwlio o fewn yr ysgol.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein dull ni o weithredu yn Ysgol Aberconwy.

## Egwyddorion

Mae gan ddisgyblion hawl diamod i gael eu haddysg mewn amgylchedd saff a diogel ac i gael eu hamddiffyn rhag eraill a allai ddymuno eu niweidio, eu hiselhau neu eu cam-drin.

Ni does **unrhyw gyfiawnhad** dros ymddygiad gormesol, ac ni ddylid dioddef unrhyw ffurf ar fwlio. Mae parch at amrywiaeth: hil, crefydd, rhywogaeth, tueddiad rhywiol, newid rhyw, oed, statws priodasol ac anabledd yn cael ei feithrin yn ein hysgol ac nid yw gwahaniaeth byth yn rheswm dilys dros fwlio.

Mae ymddygiad bwlio yn broblem i'r bwli a'r dioddefwr a dargedir ganddo/i a dylid ymdrin â'r digwyddiad mewn dull positif ac adeiladol a fydd yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol a datblygiadol i'r bwli a'r unigolyn a dargedir.

Mae'r gallu i reoli bwlio yn effeithiol yn gyfrifoldeb i'w rannu a dylai strategaethau gynnwys: staff yr ysgol, rhieni/gofalwyr ac unigolion proffesiynol sy'n ymwneud â'r plant a dargedir, neu'r rhai sy'n ymddwyn mewn modd gormesol.

Dylai gwybodaeth am bolisi bwlio a gweithdrefnau'r ysgol fod ar gael yn hawdd ac mewn modd dealladwy i blant a'u rhieni/gofalwyr, e.e. trwy'r Canolfan Tŷ, gwefan yr ysgol, athrawon dosbarth.

## Sgôp

Mae hwn yn bolisi ar gyfer enghreifftiau o fwlio ar dir yr ysgol yn unig. Nid oes gan yr ysgol gyfrifoldeb cyfreithiol am fwlio sy'n digwydd mewn mannau eraill.

Fodd bynnag, mae gennym fel ysgol ddiddordeb parhaus yn lles ac ymddygiad ein disgyblion a rhoddwn ystyriaeth i unrhyw wybodaeth a gawn am fwlio y tu allan i'r ysgol, a'i gymryd fel rhan o'n dyletswydd i ofalu bob amser am les ein disgyblion:

- hysbysir rhieni/gofalwyr bwli os deallwn fod disgybl yn gyfrifol am fwlio plant eraill oddi ar dir yr ysgol.
- os deallwn fod disgybl yn cael ei fwlio oddi ar dir yr ysgol (trwy ddulliau uniongyrchol neu electronig) byddwn yn barod i gynnig cymorth a chefnogaeth a chyngor hefyd ar sut i osgoi digwyddiadau cyffelyb eto. Hysbysir rhieni/gofalwyr yr unigolyn a dargedir.
- os clywn am bryderon ynghylch bwlio oddi ar dir yr ysgol byddwn yn cynghori rhieni/gofalwyr i gysylltu â'r heddlu lleol i geisio'u cymorth ac arweiniad i ddelio â'r sefyllfa.
- trafodir gyda'r cwmnïau bysiau os bydd pryderon yn ymwneud â thrafnidiaeth yr ysgol a gofynnir am eu cymorth i ddatrys y broblem.
- os cawn wybodaeth am blentyn yn cael ei fwlio gan frawd/chwaer oddi ar dir yr ysgol ceir gair yn gyntaf â'r rhieni/gofalwyr. Os bydd pryder yn parhau gellid dilyn trefn Rhaglen Amddiffyn Plant Awdurdod Conwy a gweithdrefnau cyfredol Amddiffyn Plant Cymru.
- os bydd disgyblion yn cael eu bwlio gan blant o ysgol arall hysbysir pennaeth yr ysgol honno ac fe'i gwahoddir i ddelio â'r mater.

**Diffinio Bwlio**

Defnyddir sawl diffiniad o fwlio, ond rydym yn ei hystyried yn weithred sy'n fwriadol niweidiol, gan dargedu unigolyn neu grŵp, sy'n digwydd yn aml dros gyfnod o amser gan olygu bod y sawl sy'n cael eu bwlio'n teimlo'n anniogel a than fygythiad (er ein bod yn cydnabod y gall un digwyddiad yn unig achosi trawma i'r disgybl ac y gellid ei ystyried yn fwlio). Mae sawl gwahanol fath o fwlio, ond rydym yn cydnabod 4 prif fath:

- Corfforol – gan gynnwys ymosod corfforol, cymryd neu ddifrodi eiddo, aflonyddu rhywiol neu ymosodiad.
- Llafar – gan gynnwys: galw enwau, sarhau, gwneud sylwadau tramgwyddus a bygwth
- Anuniongyrchol – lledu storïau cas neu sibrydion maleisus am rywun, eithrio o grwpiau cymdeithasol
- Seibr-fwlio – yn cynnwys defnyddio ffonau symudol a'r rhyngrwyd (gan gynnwys safleoedd rhwydweithio cymdeithasol, e-bost, fideo a negeseua sydyn) i achosi gofid neu fygwth bwriadol i rywun arall

Rydym hefyd yn cydnabod y gallai bwli ddylanwadu ar drydydd parti a rhoi pwysau arnynt i fwlio, hyd yn oed os nad yw'n bwlio'n uniongyrchol.

**Bwlio a Chydraddoldebau**

Mae Ysgol Aberconwy yn cymryd agwedd ddifrifol iawn tuag at bob math o fwlio ac yn ystyried bod bwlio corfforol, llafar, anuniongyrchol a seibr yr un mor ddifrifol â'i gilydd. Rydym yn cydnabod bod rhai grwpiau o ddisgyblion mewn perygl uwch o gael eu bwlio gan gynnwys:

- disgyblion gydag anghenion arbennig neu anabledd;
- disgyblion lesbiad, hoyw, deuryw a thrawsrywiol; a
- disgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol neu grefyddol.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi naw nodwedd a amddiffynnwyd (oed, anabledd, newid rhyw, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw, a thueddiadau rhywiol).

O dan y Ddeddf hon mae dyletswydd arnom i:

- gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erlid ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf;
- ymestyn cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu'r un nodwedd a amddiffynnwyd a rhai nad ydynt yn eu rhannu; a
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu'r un nodwedd a amddiffynnwyd a rhai nad ydynt yn eu rhannu.

Rydym yn arbennig o awyddus i fonitro achosion sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r nodweddion a amddiffynnwyd. Bydd achosion o'r fath yn cael eu trin yn benodol gyda'r bwli (a'r rhieni/gofalwyr ble bo'n briodol) wrth reoli ar ôl y digwyddiad. Byddwn yn mabwysiadu ffordd fwy rhagweithiol o hyrwyddo parch tuag at amrywiaeth ac yn atal a lleihau effaith rhagfarn a gwahaniaethu os canfyddir tueddiadau sy'n awgrymu bod rhywbeth i bryderu amdano.

Gofelir, pan fo hynny'n angenrheidiol, i gofnodi unrhyw ddigwyddiadau o natur erlid rhywiol a gormesol yn unol â'r drefn a geir yn y Protocol a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant.
Cofnodir achosion o fwlio gydag elfen neu anogaeth hiliol yn unol â disgwyliadau Polisi Cysylltiadau Hiliol yr ysgol.

**Nodau ac Amcanion**

Nodau'r polisi hwn yw:

- Cyflawni cyfrifoldebau statudol yr ysgol i barchu hawliau plant a diogelu a hyrwyddo'u lles cyffredinol.
- Egluro ein hagwedd parthed ymateb i honiadau bwlio, gan dalu sylw dyledus i'n cyfrifoldebau cyfreithiol, a dangos ein hymrwymiad i archwilio a delio'n gyson â phob achos honedig o fwlio
- Hyrwyddo ethos ysgol lle gall pob plentyn deimlo'n ddiogel a chyflawni ei lawn botensial.
- Hybu dealltwriaeth gyffredin o beth yw bwlio
- Amlinellu'r strategaethau a ddefnyddir i hybu ethos gwrth-fwlio a pharch at amrywiaeth
- Diogelu lles holl gymuned yr ysgol a rhoi negeseuon addas i staff, disgyblion a rhieni/gofalwyr
- Datgan ein hymrwymiad i drin problem bwlio a dod ag ef dan reolaeth trwy weithredu polisi a gweithdrefnau ysgol gyfan.
- Argyhoeddi rheini a gofalwyr fod yr ysgol yn cymryd lles eu plant o ddifrif.

Bydd Ysgol Aberconwy yn ymdrechu i gyflawni nodau'r polisi hwn trwy gyfrwng yr amcanion canlynol:

- Byddwn yn sicrhau bod rhieni, disgyblion a staff yn ymwybodol o'n polisi ac yn deall natur bwlio a'i effeithiau ar unigolion a chymunedau

- Byddwn yn codi ymwybyddiaeth staff, rhieni/gofalwyr a disgyblion am broblemau bwlio ac agwedd yr ysgol tuag ato ac yn creu amgylchedd lle gwerthfawrogir y ffaith fod bwlio'n amhriodol ac yn annerbyniol.

- Byddwn yn hybu diwylliant o barchu ein hunain ac eraill trwy raglenni ysgol gyfan megis: ymgyrchoedd Wythnos Gwrth-Fwlio a thrwy raglenni bugeiliol ac ABCh.

- Byddwn yn canolbwyntio ar barchu ein hunain ac eraill trwy: wasanaethau ysgol, annog y cyngor ysgol i fod yn weithredol ac ymgyrchoedd gwrth-fwlio

- Byddwn yn dangos nad yw bwlio'n dderbyniol trwy osod sancsiynau a byddwn yn gweithredu i ddiogelu unigolion a grwpiau a dargedwyd

- Byddwn yn cofnodi pob achos o fwlio ac yn cadw golwg er mwyn darganfod unrhyw batrymau ac effeithiolrwydd ein strategaethau i atal bwlio

- Byddwn yn herio disgyblion sy'n bwlio mewn modd cadarn a chyfeillgar a rhoi iddynt pob cefnogaeth i newid eu hymddygiad

- Byddwn yn gwneud disgyblion, rhieni/gofalwyr a staff yn ymwybodol o'r camau priodol i'w cymryd pan fo achos o fwlio wedi digwydd

- Byddwn yn ystyried anghenion ieithyddol disgyblion, rhieni/gofalwyr pan na fo'r Gymraeg/Saesneg yn iaith gyntaf y cartref.

**Cyfrifoldebau**

Corff Llywodraethu

Bydd y 'llywodraethwr enwebedig' yn cysylltu â'r Cadeirydd, y Pennaeth a'r 'athro enwebedig' ynglŷn â phob strategaeth gwrth-fwlio, ac achosion unigol lle bo'n briodol.

Bydd y corff llywodraethu'n trafod, adolygu a chadarnhau strategaethau cytûn ar gais y 'llywodraethwr enwebedig', ac o reidrwydd yn trafod adroddiad blynyddol y Pennaeth ar weithrediad y polisi hwn.

Bydd y Pennaeth yn:

- sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael cyfle i drafod strategaethau a'u hadolygu;
- pennu'r strategaethau a'r dulliau gweithredu;
- trafod datblygiad y strategaethau gyda'r Tîm Arwain
- sicrhau bod hyfforddiant priodol ar gael;

- sicrhau bod y staff, rhieni a’r disgyblion yn gwybod am y dulliau gweithredu; ac
- adrodd yn ôl i’r corff llywodraethu yn flynyddol.

Bydd y Pennaeth Cynorthwyol yn:

- gyfrifol am reoli’r polisi a’r systemau o ddydd i ddydd;
- sicrhau bod strategaethau a dulliau gweithredu positif yn eu lle i helpu’r rhai sy’n bwlio a’r rhai sy’n cael eu bwlio;
- rhoi gwybod i’r Pennaeth am unrhyw achosion o fwlio
- trefnu unrhyw hyfforddiant staff perthnasol;
- penderfynu sut orau i gynnwys rhieni wrth ddatrys problemau unigol; ac
- adrodd yn ôl yn flynyddol i’r Pennaeth a’r Corff llywodraethu .

Bydd Mentoriaid Tŷ yn:

- gyfrifol am sicrhau bod strategaethau positif yr ysgol yn cael eu gweithredu; a
- gwybod beth yw dull gweithredu’r ysgol ac yn delio ag unrhyw achosion o fwlio sy’n cael eu dwyn i’w sylw.
- Ymchwilio i achosion o fwlio a rhoi gwybodaeth i’r Dirprwy neu Bennaeth Cynorthwyol perthnasol.
- cofnodi achosion o fwlio yn unol â dulliau gweithredu / systemau’r ysgol a darparu data ar gyfer adroddiadau.

Bydd Tiwtoriaid Dosbarth yn:

- gyfrifol am gysylltu â Mentoriaid Tŷ ynglŷn â phob achos o fwlio sy’n ymwneud â disgyblion o’u dosbarth hwy;
- cymryd rhan mewn unrhyw strategaeth gytûn er mwyn datrys y broblem; a

Bydd pob aelod o’r Staff yn:

- gwybod y polisi a’r dulliau gweithredu;
- yn sylwgar ac yn gofyn i ddisgyblion beth sy’n digwydd iddynt;
- delio gydag achosion o fwlio yn unol â’r polisi;
- sicrhau nad ydynt yn gadael i achos o fwlio ddigwydd heb adrodd yn ôl, boed yr achos hwnnw’n digwydd yn yr ysgol neu yn ystod gweithgaredd oddi ar y safle; ac yn
- cymryd rhan yn rhaglen gwrth-fwlio’r ABGI.

**Camau’r Ysgol Gyfan i Atal Bwlio**

Bydd yr holl staff sy’n ymwneud ag addysg a goruchwyliaeth disgyblion yn cael eu gwneud yn ymwybodol o broblem bwlio, a’r angen i weithredu polisi’r ysgol gyda chysondeb pan welir digwyddiadau o fwlio neu pan gofnodir achosion o’r fath. Bydd staff yn atgyfnerthu’n gyson y neges a gyflwynir i ddisgyblion fod bwlio’n annerbyniol, a gweithredir yn gadarn i atal a rheoli bwlio.

Yn ogystal, bydd bwlio’n cael ei godi gyda’r disgyblion ar nifer o wahanol lefelau gan gynnwys:

***Lefel ysgol gyfan*** – yn llawlyfr yr ysgol, dyddiaduron cartref/ysgol a gwasanaethau boreol yr ysgol bel bydd disgyblion yn cael eu hysbysu am bolisi gwrth-fwlio'r ysgol.

***Lefel dosbarth*** – yn ystod cyfnodau yn y dosbarth, grwpiau tiwtorial, gwaith trawsgwricwlaidd a gwersi bugeiliol.

***Ar lefel unigol*** – caiff plant y tybir eu bod yn wynebu'r risg o gael eu bwlio (neu a gafodd eu bwlio'n barod) gynnig cymorth ac arweiniad ychwanegol. Caiff plant sydd wedi bwlio plant eraill gyngor a chefnogaeth arbennig a chfylwynir strategau iddynt fydd yn eu galluogi i liniaru eu hymddygiad annerbyniol, a'u hatal rhag camymddwyn eto.

Mae Ysgol Aberconwy yn cydnabod bod disgyblion yn gallu bod yn fwy agored i fwlio ar adegau penodol o'r dydd – amser cinio, amser egwyl, ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Mae gennym drefniadau sy'n gofalu fod goruchwyliaeth ddigonol ar yr adegau hyn i leihau'r perygl o fwlio.

Rydym yn cydnabod bod lleoedd ar dir yr ysgol lle mae digwyddiadau neu fwlio yn fwy tebygol o ddigwydd. Mae gennym drefniadau i ofalu bod y lleoedd hyn yn cael eu goruchwylio neu fe waherddir y disgyblion rhag mynd iddynt. Er enghraifft, ailfodelwyd ardal toiledau CA4 er mwyn sicrhau'r lleiafswm posibl o fwlio (a digwyddiadau eraill yn ymwneud ag ymddygiad gwael).

Rydym yn cydnabod ein dyletswydd i ddelio â digwyddiadau seibr-fwlio sy'n aml yn fwy tebygol o ddigwydd y tu allan i'r ysgol ond a all gael effaith drwg iawn ar fywyd ysgol y disgyblion dan sylw. (Amlinellir rhai pwerau cyfreithiol sydd â chysylltiad uniongyrchol â seibr-fwlio yn Neddf Addysg ac Arolygiadau 2006. Mae'r grym gan benaethiaid 'i'r graddau ag y bo'n rhesymol' i reoli ymddygiad disgyblion pan na fyddant ar dir yr ysgol neu heb fod dan reolaeth neu heb fod yn gyfrifoldeb aelod o staff.)

Anogir disgyblion i ddweud wrth y staff am achosion o fwlio personol neu am rai y gwyddant amdanynt. Dan amgylchiadau o'r fath bydd y staff yn ymateb yn gadarnhaol, ac yn rhoi ystyriaeth ddwys i unrhyw bryderon ac yn ymchwilio'n drwyadl i'r mater.

Dylai rhieni/gofalwyr sy'n credu bod eu plant yn cael eu bwlio ddweud am eu pryderon wrth yr ysgol cyn gynted ag y bo modd a bod yn barod i gydweithio â'r ysgol i sicrhau diogelwch eu plant i'r dyfodol. Rhoddir sylw dwys i unrhyw bryder ac fe'i harchwilir yn drwyadl.

Yn yr un modd, os bydd rhieni/gofalwyr yn poeni bod eu plentyn yn bwlio fe'u hanogir hwythau i ddweud am eu pryder wrth yr ysgol er mwyn ceisio datrys unrhyw broblem ac i lunio cynllun i atal digwyddiadau pellach er mwyn helpu'r plentyn i addasu eu hymarweddiad.

Bydd yr holl strategau ataliol hyn yn gweithredu o fewn ethos ysgol wedi'i seilio ar gydraddoldeb, tegwch a pharchu eraill gan gydnabod pwysigrwydd a gwerth gwahaniaethau rhwng unigolion a'i weld fel rhywbeth sy'n cyfoethogi. Er mwyn gallu helpu disgyblion i ddysgu a datblygu i ymateb yn addas i eraill, bydd pob aelod o'r staff yn trin eu cydweithwyr, rhieni/gofalwyr a'r disgyblion yn foneddigaidd a pharchus ac yn ymdrechu i fod yn batrwm o ymddygiad priodol a derbyniol.

**Ymwneud Rhieni**

Mae Ysgol Aberconwy yn rhwymedig i weithio mewn partneriaeth â rhieni/gofalwyr ac yn credu y ceir y canlyniadau gorau pan fydd gweithwyr proffesiynol a rhieni'n cydweithio os bydd bwlio'n digwydd.

Fel ysgol cydnabyddwn ddylanwad pwysig rhieni/gofalwyr ar eu plant a'n gobaith yw y gallwn ddefnyddio cytundebau ysgol/cartref i gael eu cymorth os bydd eu plentyn yn rhan o unrhyw fwlio – naill ai fel dioddefwr, affeithiwr yn achos seibr-fwlio (e.e. trwy basio ymlaen negeseuon a/neu ddelweddau, er nad hwy a gychwynnodd y broses) neu ormeswr.

Os bydd plentyn yn rhan o un digwyddiad difrifol o fwlio neu os bydd gan yr ysgol dystiolaeth fod yr un plentyn yn cymryd rhan gyson mewn digwyddiadau llai difrifol (naill ai fel dioddefwr, affeithiwr neu ormeswr) bydd yr ysgol yn hysbysu rhieni/gofalwyr ac yn eu gwahodd i gymryd rhan mewn dulliau i reoli'r broblem ac i rwystro digwyddiadau tebyg eto. Bydd staff yr ysgol yn gyfrifol am ddelio â digwyddiadau unigol llai difrifol, a chysylltir â'r rhieni/gofalwyr.

Os bydd rhieni/gofalwyr yn anfodlon â'r modd y mae'r ysgol wedi ymchwilio i achos honedig o fwlio, bydd ganddynt yr hawl i gwyno wrth y Pennaeth yn y lle cyntaf. Os bydd rhieni/gwarcheidwaid yn parhau i deimlo nad yw'r mater wedi'i ddatrys, yna mae ganddynt hawl i hysbysu'r Corff Llywodraethu trwy'r Cadeirydd, a fydd yn penderfynu a ddylid cynnal ymchwiliad. Rhoddir adroddiad yn uniongyrchol i'r rhieni/gwarcheidwaid.

## Gweithdrefnau i'w Dilyn

### Gweithredu

Mae Ysgol Aberconwy yn rhwymedig i greu awyrgylch di-fwlio a bydd yn sicrhau fod y polisi hwn yn cael ei weithredu'n gadarn. Bydd pob aelod o staff sy'n rhan o addysgu a goruchwylio disgyblion yn gyfrifol am ddelio â digwyddiadau a ddaw o fewn diffiniad yr ysgol o fwlio a bod y disgybl a dargedir yn cael y cymorth anghenrheidiol; cyfeirir ar unwaith at y Mentor Tŷ, Pennaeth Tŷ neu Bennaeth Cynorthwyol perthnasol, yn dibynnu pa mor ddifrifol yw'r achos dan sylw.

Os yw'n fater CP yna dylid cysylltu'n gyntaf â'r Mentor CP neu'r Pennaeth Cynorthwyol (CP). Hysbysir y bwli bod ei h/ymddygiad yn annerbyniol a chofnodir y digwyddiad.

Dylai'r holl ddisgyblion wybod bod y staff yn awyddus i wybod am unrhyw ddigwyddiad neu bryderon ac y byddant yn gweithredu ar unwaith pan glywant am unrhyw fwlio.

### Rheoli digwyddiadau

Gweithredir fel a ganlyn:

- Siarad â'r disgyblion unigol sydd ynghlwm ag unrhyw ddigwyddiad o fwlio a gofnodir
- Siarad â rhieni/gofalwyr y bwli(s) honedig a'u targed(au)
- Cyfeirio digwyddiadau mwy difrifol at y Pennaeth Tŷ a'r rhai mwyaf difrifol at y Pennaeth Cynorthwyol Perthnasol
- Gwahodd rhieni/gofalwyr y disgyblion dan sylw i'r ysgol i drafod y digwyddiad
- Hysbysu'r Pennaeth ar unwaith

- Gweithredu'n gyflym ac yn briodol
- Gweithredu i leihau'r niwed a achosir gan ddigwyddiadau seibr-fwlio (e.e. dileu deunydd sarhaus)

**Cefnogaeth i Unigolyn a Dargedir**

Pan dderbynnir gwybodaeth yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol y gallai disgybl fod wedi cael ei fwlio, bydd y mater yn cael ei gymryd o ddifrif a'i ymchwilio.

Bydd yr ysgol yn cynnig cymorth rhagweithiol sy'n llawn cydymdeimlad a chefnogaeth i ddisgyblion a dargedir gan fwli. Penderfynnir natur yr ymateb gan anghenion arbennig yr unigolyn, a gall gynnwys:

- ymateb ar unwaith i atal y digwyddiad a diogelu'r disgybl
- dileu deunydd sarhaus o wefan yr ysgol, cefnogi'r disgybl i ddweud am achosion o seibr-fwlio wrth yr awdurdodau allanol perthnasol a/neu ddweud yn uniongyrchol wrth y darparwr gwasanaeth rhyngrwyd neu gwmnïau ffôn am achosion o seibr-fwlio.
- rhoi cadarnhad positif mai dweud am y digwyddiad oedd y peth cywir i'r wneud
- rhoi sicrwydd nad yr unigolyn a dargedwyd oedd yn gyfrifol am ymddygiad y bwli
- strategaethau i atal digwyddiadau pellach
- cydymdeimlad ac empathi
- cynghori
- cysuro cyfeillgar
- hyfforddiant pendantrwydd/datblygu hunan barch
- goruchwyliaeth/monitro ychwanegol
- creu grŵp cefnogi
- mentora cyfoedion
- hysbysu/cynnwys rhieni/gofalwyr
- oedolyn yn cymodi rhwng y gormeswr a'r unigolyn a dargedwyd (gan ofalu nad yw'r perygl yn cynyddu i'r un a dargedwyd)
- trefnu i adolygu cynnydd

**Cefnogaeth i'r Bwli a/neu Affeithwyr Seibr-Fwlio**

Mae Ysgol Aberconwy yn trin bwlio fel mater difrifol iawn a bydd yn defnyddio dulliau cefnogol, pragmataidd, gan geisio datrys problemau mewn modd a fydd yn galluogi'r sawl sy'n bwlio i addasu eu hymddygiad. Fel Ysgol credwn fod defnyddio sancsiynau mewn modd positif yn gallu bod yn ddefnyddiol i ddangos i'r sawl sy'n bwlio nad yw eu hymddygiad yn dderbyniol, ac er mwyn hyrwyddo newid.

Bydd Ysgol Aberconwy yn ymateb i achosion o fwlio mewn modd cymesurol – po fwyaf difrifol yr achos a'r pryder po fwyaf difrifol fydd yr ymateb hefyd. Os bydd angen gosod sancsiynau gwneir hyn gyda chysondeb a thegwch. Ystyrir y dewisiadau canlynol:

- gweithredu ar unwaith i atal achos o fwlio sy'n digwydd ar y pryd
- ymgysylltu â'r bwli er mwyn atgyfnerthu'r neges fod ei h/ymddygiad yn torri rheolau polisi disgyblaeth yr ysgol a'r cynllun rheoli ymddygiad, ac yn gwbl annerbyniol
- colli unrhyw ryddid amser cinio/egwyl

- cyfnod cosb
- cerdyn adroddiad ymddygiad
- gwahardd o'r dosbarth/grŵp
- gwahardd rhag cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgaredd ar ôl ysgol (oni bai ei fod yn rhan hanfodol o waith y cwricwlwm)
- hysbysu rhieni/gofalwyr
- cynghori/cyfarwyddo am ddulliau amgen o ymddwyn
- oedolyn yn ganolwr rhwng y cyflawnwr a'r unigolyn a dargedwyd (os bydd pawb yn cytuno)
- gwaharddiad cyfnod penodol
- gwaharddiad parhaol (mewn achosion difrifol a allai gynnwys trais)
- cynnig gwobrwyon/atgyfnerthu cadarnhaol i ddisgyblion er mwyn hyrwyddo newid a rheoli ymddygiad annerbyniol
- ymwneud asiantaethau allanol priodol e.e. yr heddlu mewn achosion lle torrwyd y gyfraith

**Monitro a Gwerthuso**

Cofnodir pob achos o fwlio a ddaw o fewn diffiniad yr ysgol. Bydd unrhyw ddigwyddiad a gysylltwyd â rhagfarn neu ddiffyg goddefgarwch yn seiliedig ar rywogaeth, tueddfryd rhywiol, anabledd, diwylliant/iaith neu hil yn cael ei ganfod a'i drin yn unol â gweithdrefnau'r adran *Diffiniad o Fwlio.*

Mae Dirprwy Brifathro wedi'i benodi i gymryd rôl benodol cydlynydd y polisi Gwrth-Fwlio ac i fod yn gyfrifol am fonitro, adolygu, gwerthuso a chofnodi'r prosesau sy'n gynwysedig yn y polisi.
Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei lunio ar gyfer y Corff Llywodraethu a fydd yn tynnu sylw at nifer y digwyddiadau ac yn manylu am unrhyw dueddiadau a allai fod wedi dod i'r amlwg.

Bydd uwch staff yr ysgol a'r Llywodraethwyr yn gwerthuso effeithiolrwydd y polisi ac yn cynnig unrhyw newidiadau a allai ddileu unrhyw bryderon sydd ganddynt. Cyflwynir y rhain at sylw'r staff, rhieni/gofalwyr a disgyblion.

**Monitro a Gwerthuso Polisi'r Ysgol**

Argymhellir ymgynghori â'r isod wrth adolygu'r polisi:

- Disgyblion
- Rhieni/gofalwyr
- Staff
- Llywodraethwyr
- Asiantaethau allanol e.e. Swyddog Cyswllt yr Heddlu yn yr Ysgol, Ymgynghorydd Iechyd Pobl Ifanc, Viva a ChildLine

Argymhellir adolygu'r polisi o leiaf bob tair blynedd.

**Casgliadau**

Ni all polisi gwrth-fwlio atal bwlio ar ei ben ei hun. Credwn yn gryf fod bwlio'n agwedd o fywyd na ellir ei leihau heb ddeall pam ei fod yn digwydd. Mae ein polisi ni wedi cael ei lunio i wella'r

ddealltwriaeth hon a lleihau'r angen I fwli fwlio ac i'r perwyl hwn mae'n rhan hanfodol o ethos ac athroniaeth yr ysgol.